

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymru Cymraeg i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 4

Yn rhad ac am ddim

Gorffennaf 2022



Garleg Gwyllt Pentyrch

Pentyrch

gan Rob Evans

Ar ddydd Sadwrn 7fed o fis Mai roedd criw go dda o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd yn casglu ym maes parcio Clwb Rygbi Pentyrch yn barod am ddiwrnod o gerdded. Roedd y tywydd yn braf a'r gwynt yn ysgafn, Heulwen a Huw Jones oedd yn arwain. Huw yn barod wedi gwneud gwaith 'point duty' arbennig er mwyn sicrhau bod ni i gyd yn cyrraedd y maes parcio'n ddiraffferth. Mae'n deimlad arbennig bod ni'n gallu dibynnu ar daith cerdded bob dydd Sadwrn unwaith eto. Dyma ardal o Gymru oedd yn hollol ddiarth i mi hyd yn hyn.

Mae Pentyrch yn un o'r llefydd prin ble mae'r Gymraeg yn dal yn fywiog gan ei fod wedi denu llawer o Gymry Cymraeg i fyw yna. Does dim rhyfedd chwaith gan mae'n agos at y brifddinas ond eto allan yn y wlad.

Ddoth yr amser a ffwrdd â ni, heibio ysgol a thrwy gaeau tan i ni gyrraedd Pentwyn a cherdded ar lôn dawel i gyrraedd ysgol Graig y Parc. Dyma ysgol sydd yn cynnig cyfnodau preswyl i blant ac oedolion ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Yn wreiddiol roedd y tŷ yn perthyn i ddyn o'r enw Thomas Evans a ddechreuodd ei yrfa yn gweithio ar y rheilffordd a wnaeth ei ffortiwn trwy gasglu glo oedd wedi syrthio oddi ar y wagenni ar y ffordd i'r dociau. Cafodd ei enwi yn 'Evans Glo Mân' wrth gwrs.

Trwy dipyn bach o goed wedyn i gyrraedd lôn oedd yn mynd â ni yn ôl i ochr dwyreiniol Bentyrch ac eglwys Sant Catwg. Roedd llawer i'w weld tu fewn ond gan fod priodas yn mynd ymlaen ar y pryd penderfynom ni beidio myrryd â'r dathliadau. Ond, er hynny, roedd y grisiau i fyny at y fynwent yn ddefnyddiol iawn fel math o bwlpit i Heulwen er mwyn i ni gael dipyn o'r hanes. Cyferbyn ac uwch i fyny'r lôn mae tafarn y King's Arms ble mae pobl wedi bod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Picnic dan y Goeden

yn yfed ers yr 17eg ganrif, ond nid yr un bobl wrth reswm! Roedd yn bencadlys leol i'r Odyddion, The Oddfellows. Yn ôl Heulwen mae symbol mewn cylch o bren ar nenfwd ystafell fawr y dafarn, mae'n dangos llygad mawr sydd yn syllu i lawr ar yr yfwyr. O amgylch y llygad mae'r geiriau.

Llygad i weled
Llaw i gyfrannu,
Calon i deimlo.

Roedd pawb yn ysu am ei weld wrth gwrs ond roedd Heulwen yn barod wedi dechrau dweud wrthon ni am y Mari Lwyd oedd yn ymweld â'r dafarn ar nos Galan bob blwyddyn. Erbyn hyn mae'r Mari Lwyd gwreiddiol yn amgueddfa Sain Ffagan ond nid yw'r dathliadau wedi dod i ben. Mae'r traddodiad yn parhau diolch i gwmni dawns Gaerdydd sydd yn ymweld â'r dafarn efo eu Mari Lwyd eu hunain.

Dw i wedi bod yn cadw'n dawel am y ffaith bod ni wedi bod yn dringo allt serth am beth amser erbyn hyn ac wrth droi i mewn i gae'r un mor serth roedd ein cyhyrau'n cael ymarfer gwerth ei gael. Mae perthyn i'r Gymdeithas yn arbed talu am aelodaeth clwb ffitrwydd - ac yn fwy pleserus hefyd! Ar ben y bryn roedd goeden fawr yn cynnig cysgod a lle i gael ein picnic. Yn y pellter roedd gyrion dwyreiniol Caerdydd, am gyferbyniad!

Am ychydig o wythnosau roeddwn i wedi bod yn chwilio am garped o glychau'r gog, wedi gweld llawer ond dim un yn tycio, ond ar y ffordd yn ôl wrth gerdded trwy goedlan dyma garped

ardderchog. Dw i'n hapus am flwyddyn arall rŵan!

Cyrhaedd y pentref unwaith eto a mynd heibio hen gapel Horeb sydd wedi cael ei gymryd drosodd ac erbyn hyn yn gartref i gwmni Acapella sydd yn stiwdio a chanolfan perfformio ac wedi bod yna ers 2008. Mae amrywiaeth o gerddoriaeth yn cael ei berfformio mewn awyrgylch cartrefol - ac maen nhw'n gweini pizzas hefyd!

Unwaith eto taith hyfryd efo llawer o wybodaeth ddiddorol, llawer o hwyl a chwmni da - diwrnod o Heulwen mewn bob ystyr. Diolch yn fawr iawn iddi hi a Huw am yr holl waith paratoi.

Rhy Brysur o Lawer

gan Marie Mills

Mae A40 o Lundain i Abergwaun yn rhedeg heibio fy nhŷ. Ers i ni symud yno bron deunaw mlynedd yn ôl, roedd ein tŷ ar ymyl y pentref. Roedd caeau, coed a pherthi i'r gogledd ac roedd ffermydd i'r gorllewin hefyd. Ro'n i'n gallu clywed yr ŵyn yn breffu yn y gwanwyn wel, pan roedd y gwynt yn chwythu o'r gogledd; mae'r ffordd yn brysur iawn drwy'r dydd a'r nos ac mae hi'n swnllyd iawn, wrth gwrs.

Ond mae popeth yn newid yma. Mae llawer o dai newydd wedi cael eu hadeiladu i'r gorllewin a bydd llawer mwy ohonyn nhw yn cael eu hadeiladu yno dros y bum mlynedd nesa. Bydd pentref newydd yn cael ei adeiladu i'r gogledd hefyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ond beth am y ffordd? Cawn ni weld. Mae'r Cyngor yn cael arian o'r llywodraeth i wneud gwelliannau iddi, a dros y bum mlynedd diwethaf cafodd nifer o syniadau eu cyhoeddi i drafod. Ar hyn o bryd dyn ni'n aros am benderfyniad y cyngor am ganiatâd cynllunio i'r syniadau mwyaf diweddar



Yn sicr, mae dyfodol y bywyd gwyllt yn ansefydlog iawn. Mae ceirw a llwynogod wedi byw yn yr ardal ers i ni symud yma ond dyn ni ddim yn gweld nhw yn aml iawn o gwbl, ambell waith yn ystod y nos, neu yn yr oriau mân, efallai, ond bron dim yn ystod y dydd.

Pythefnos yn ôl treuliais i dros dair awr gyda charw oedd wedi cael ei anafu yn ddifrifol ar y ffordd wrth ochr fy ngardd. Dros y bythefnos ddiwethaf mae nifer o bobl yn ein stryd, gan gynnwys fi, wedi gweld llwynog yn cerdded yn y stryd yn y prynhawn sawl gwaith. A'r bore 'ma wrth ddod adre ar y bws ar ôl mynd â fy mhlant i'r ysgol, jest cyn yr un gyffordd â'r tro diwethaf, gwelais garw arall yn gorwedd ar y ffordd. Roedd e'n fyw ond yn sicr wedi cael damwain. Es i ato yn syth. Ro'n i'n symud ato yn araf ac yn ofalus iawn, ond cododd e'n sydyn a diflannu drwy dwll yn y gwrych. Roedd e wedi cael sioc, ond roedd e'n iawn.

Beth nesa, tybed...

Help Spread the Word!

The Wennol depends on word of mouth to get more readers. So pass on a pdf to those people you know who are learning Welsh.

Thank you

Ffilmio yn Abergwaun

gan Adrian Pugh

Mis Hydref diwethaf cerddon ni ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro ger Dinas Cross gyda ffrindiau. Roedden nhw eisiau cerdded i Lower Town ger Abergwaun felly gyrrais y car i gwrdd â nhw. Yng Nghwm Abergwaun roedd tri bws mini Ford Transit du wedi eu parcio ar ochr y cei. Od iawn, roeddwn i'n meddwl.

Parciais y car ac wrth gerdded i'r caffi sylwais ar griw ffilmio a thair dynes wedi gwisgo mewn Gwisg Genedlaethol Gymreig. Cerddais ymlaen i siarad â'r tair menyw. Roeddent yn ffilmio Great British Coastal Journeys gan Michael Portillo a oedd ar y teledu yn ddiweddar.



Yn sydyn fe ddywedodd un o'r criw ffilmio wrtha i am stopio siarad yn rhy uchel. Ailgreodd y tair menyw y "Last Invasion of Britain" trwy redeg at Michael Portillo a chwifio picfforch.



Helpwch ymledu'r Gair!

Mae'r Wennol yn dibynnu ar bobl i basio'r pdf ymlaen er mwyn cael cyhoeddusrwydd. Felly anfonwch y pdf ymlaen i'ch ffrindiau sy'n dysgu

Diolch

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Dysgu fy Mab

gan Ruth Connor

Ruth dw i. Dw i'n byw yn Rhydychen efo fy ngŵr a fy mab. Dw i'n dod o Ben-y-bont ar Ogwr yn wreiddiol. Dw i'n gweithio fel cyfrifydd i Nuffield Department of Clinical Medicine, Prifysgol Rhydychen. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers haf 2019 efo Say Something in Welsh. Wnes i ddechrau efo Dysgu Cymraeg yn y cyfnod clo. Dw i'n lwcus iawn achos mae gen i ffrindiau yn Rhydychen sy'n siarad Cymraeg. Diolch i John Williams sy'n trefnu llawer o weithgareddau i ni yn Rhydychen, fel cinio Nadolig a Gwyl Dewi, teithiau cerdded yn yr ardal leol a sgwrs ar lein ac yn y dafarn.

Rŵan, mae gen i her newydd. Dw i'n trio helpu fy mab i siarad Cymraeg! Dw i isio fo ddysgu Cymraeg tra bod o'n fach (mae o'n 4 oed). Mae o fel sbwng. Mae o'n licio canu "Oes gafr eto" yn y car i'r meithrin yn y bore! Mae'r iaith Cymraeg yn fy nheulu wedi marw efo fy nhaid, dw i ddim isio fy mab golli allan ar ei etifeddiaeth achos caeth o ei fagu yn Lloegr. Ddoe, oedd o'n gwylio "Fflic a Fflac" ar y teledu. Roedd Fflic a Fflac yn dysgu am Ddydd Gwyl Dewi. Roedd y cyflwynydd yn canu iddo'i hun "O, dw i'n hoffi Cymru. O, dw i'n hoffi Cymru." Wedyn, clywes i fy mab yn canu "O, dw i'n hoffi Cymru" pan oedd o'n chwarae efo teganau. Ro'n i mor falch. Oes gynnoch chi tips i ddysgu Cymraeg efo plant?

Byw ym Mhontygwaith

gan Ian Andrews

Ian dw i. Dw i'n byw ym Mhontygwaith. Dwi'n dod o Hastings yn wreiddiol. Dw i'n hoffi seiclo.

Dw i ddim yn bwyta cig. Dw i'n gwylio Ghosts ar y teledu. Dw i'n gwrandao ar Radio 6Music a Radio Cymru. Dw i'n hoffi darllen Sherlock Holmes.

Dysgwr o Gimla

gan Stephen Emanuel

Stephen dw i, dwi'n byw yng Nghimla, Castell Nedd ond dw i'n dod o Faglan yn wreiddiol

Dw i'n gweithio yn NHS Abertawe. Dw i'n hoffi dysgu Cymraeg dw i newydd ddechrau dysgu ar lein.

Dw i'n hoffi mynd am dro yng nghefn gwlad Cymru.

Dysgu a Darllen

gan Jeanette Muff

Jeanette dw i. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers blwyddyn a hanner. Dw i'n byw yn Llundain fel arfer. Ychydig cyn y pandemig, des i aros gyda ffrind ym Mhontygwaith yn y Rhondda. Symudodd Ian yma bedair blynedd yn ôl o Loegr. Penderfynon ni ddysgu Cymraeg yn y cyfnod clo. Ro'n ni'n meddwl y byddai'n gwrtais i siarad yr iaith. Roedd hwn yn gyfle da i ddysgu. Ro'n i'n hapus ei fod yn rhad, achos ro'n i'n ddi-waith ar y pryd.

Mae popeth ar-lein gyda Zoom neu Teams: gwersi, digwyddiadau a sesiynau adolygu. Mae llawer o glybiau ar gyfer darllen, teledu, garddio, cwisiau, canu ac iwcaili. Astudiais i Gwrs Mynediad llynedd a Sylfaen eleni.

Mae arholiadau ym mis Mehefin! Dw i'n mwynhau fy hun yn fawr. Mae'n gymdeithasol iawn.

Am fwy o ymarfer, dw i'n gallu gwrandao ar Radio Cymru a gwylio S4C yn fyw ac ar alw. Dw i'n benthyg e-lyfrau o'r llyfrgell. Darllenais i gyfres Amdani (i ddysgwyr) a llyfrau i blant. Dw i'n defnyddio Duolingo, Memrise a gwefannau eraill. Achos dw i'n canu'r iwcaili, weithiau dw i'n canu caneuon yn Gymraeg i fy ngrŵp yn Ne Llundain. Fy hoff gân yw Yma o Hyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gardd Agored

gan Shelagh Yeomans

Ces i fy magu yn sir Benfro, gadawaf i fynd i'r coleg ac wedyn treuliais ddeugain mlynedd yn gweithio yn Lloegr. Es i i'r ysgol yn Nhalacharn ac Abergwaun lle nad oedd llawer o Gymraeg yn cael ei siarad (yn y saithdegau cynnar). Er bod fy Mam yn siarad Cymraeg, doedd fy Nhad ddim, felly ychydig iawn o Gymraeg a glywsom yn tyfu i fyny. Symudon ni i Geredigion (daethon ni adref!) ddeng mlynedd yn ôl ac rydw i wedi bod yn mynychu gwersi Cymraeg ers wyth mlynedd. Dw i'n benderfynol o ddod yn fwy rhugl a mwynhau her sgysiau yn y siopau lleol ac ati. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn amyneddgar iawn.

Dyn ni'n agor ein gardd ar gyfer elusen (o fis Chwefror i fis Hydref) ac mae gennym enwau dwyieithog ar gyfer gwahanol rannau (Igammogam y Dderwen, Yr Ymyl, Y Cwrwgl). Mae chwe erw (gwastad yn bennaf) i'w harchwilio, gan gynnwys planhigion lluosflwydd sy'n addas i bryfed peillio, dwy ardal lysiau mawr, tri thwnnel poli, tŷ gwydr a choetir brodorol naw mlwydd oed gyda stribedi o ddolydd a llwybrau. Rydym yn gwerthu te cartref yn ogystal â chynnyrch organig a phlanhigion tymhorol a dyfir. Mae llwybr cwis Unicorn dwyieithog yn herio ymwelwyr iau.

Fi, y Ci a'r Mynyddoedd

gan Alan Carrington

Alan dw i. Dw i'n byw ger Llangwm a dw wedi ymddeol nawr. Dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg yn dda iawn, ond dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg! Dw i'n mynd am dro yn y mynyddoedd gyda fy nghi heddiw, achos mae'r tywydd yn braf (dydy hi ddim yn bwrw glaw nawr!)

Gwleidyddiaeth a Garddio

gan Rhiannon Meades

Rhiannon ydw i. Dwi'n dod o Ystrad Mynach yn wreiddiol. Dwi'n byw yn Lloegr ar hyn o bryd, mewn pentref bach yn Swydd Bedford. Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda SSIW ond dechreuais dysgu yn yr ysgol yng Nghymru. Dwi'n hoffi garddio a gwleidyddiaeth - dwi'n

mynd i'r ardd pan dw i'n teimlo'n grac am bolitics! Dwi'n hoffi tyfu pethau i fwyta, fel rhiwbob, mafon, tatws, a gwsberis. Dwi'n mynd i Harlech am wythnos yn y gwyliau haf gyda fy nheulu er mwyn trio ymarfer siarad fy Nghymraeg yn y gwyllt, yn y byd go iawn. Does dim lot o gyfle i ymarfer siarad Cymraeg lle dw i'n byw. Dwi'n ddiolchgar bod sawl grŵp yn rhedeg sesiynau sgwrs dros Zoom.

Dal i Gredu

gan Gaylor Mainwaring

Helo, Gaynor dw i a dw i'n byw yng Nghastell Nedd - dw i wedi byw yna ers dros 40 mlynedd, ond ces i fy magu ar gyrion Abertawe ac es i i'r ysgol yn Abertawe. Dw i wedi ymddeol nawr, ond gweithiais mewn swyddfa fel ysgrifenyddes ac wedyn swyddfa'r rheolwr. Mwynheais fy ngwaith, ond dw i'n mwynhau fy ymddeoliad yn fwy!

Mae tri mab da fi, ac maen nhw'n briod, felly mae tair merch-yng-nghyfraith hefyd a dw i'n lwcus iawn, achos mae saith ŵyr da fi - tri bachgen a phedair merch. Dw i'n mwynhau gwau, gwnio - dw i'n wneud dillad i fy hunan - garddio, gwarchod fy wyrion ac wrth gwrs, dysgu Cymraeg. Dechreuais i ddysgu Cymraeg, tua deg mlynedd yn ôl, ond dim ond bob hyn a hyn. Wnes i gysiau mewn dosbarthiadau, felly llawer o ddarllen, ysgrifennu, gramadeg (wrth gwrs) a gwaith cartref, ond dim llawer o sgwrsio. Mae fy sgiliau gwranddo yn anobeithiol ac weithiau, mae gen i ormod o embaras i siarad rhag ofn gwneud camgymeriad, neu dw i ddim yn gallu meddwl am y gair yn Gymraeg - dw i'n fel 'cwnigen yn lampau'r car'.

Yn ystod y cyfnod clo, wnes i ddim siarad Cymraeg o gwbl, felly dw i wedi penderfynu dysgu Cymraeg gyda 'Say Something in Welsh', achos does dim darllen, ysgrifennu, gramadeg (hwre!) neu waith cartref!!! Dim ond gwranddo, cyfieithu a siarad bob amser a hyd yn hyn dw i'n gwneud yn iawn.

Dw i newydd orffen wythnos bymtheg a dw i'n cymryd rhan mewn sgysiau Zoom bob wythnos - dw i'n gobeithio bydda i'n gallu siarad Cymraeg gyda hyder cyn bo hir.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Gorffennaf

2/7/22 Treftadaeth Iolo Morgannwg, ardal y Bont-faen

Taith tua 6.5 milltir (dewis byrrach, 4.5 milltir),
2 ddringfa raddol.

Man cyfarfod: Maes parcio tu ôl i Neuadd
Dre'r Bont-faen ar y Stryd Fawr (Tâl)

Cod Post CF71 7DD SS995746

Arweinydd: Shelagh Fishlock 01179 856850
07951 234618

9/7/22 Dim Taith

16/7/22 Ardal Bae Broughton, Bro Gŵyr

Cylchdaith tua 7 milltir, yn croesi Bae
Broughton, heibio Burry Holmes, ymlaen i Fae
Rhossili. Yn ôl ar draeth Whitford, un dringfa
weddol fer ar y diwedd.

Man cyfarfod: Maes parcio Cwm Ivy, ym
mhen pellaf pentref Llanmadog, (tâl) troi i'r
dde ger yr eglwys.

Cod Post agosaf SA3 1DE SS439935

Arweinydd: Eirian Davies 01792 844821

23/7/22 Boncath

Cylchdaith tua 6 milltir yn dilyn llwybrau a
lonydd tawel yr ardal. Un ddringfa yn unig fydd
arni ac nid yw honno'n rhy hir chwaith.

Gall rhannau o'r daith fod yn wlyb dan draed.
Dewch a sgidiau addas. Dewch a ffon hefyd -
ma' na thylwyth teg hynod beryglus yn cwato yn
y cloddiau!!!!

Man cyfarfod: Maes parcio Neuadd y Pentref

Cod Post agosaf: SA37 0JNSN205383

Arweinyddion:

Hedd Ladd Lewis a Gareth Jones

01239 654309 07507 091689

Aradaloedd Gwynedd a Môn a'r Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/> a
chliciwch 'Gweithgareddau'

Cofiwch yr Eisteddfod

Ar ôl dwy flynedd heb Eisteddfod mae'r Cymry
Cymraeg yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod yn
Nhregaron. Mae mor braf i weld gymaint o
bethau yn mynd ymlaen trwy'r iaith Gymraeg.
Llawer i weld, llawer o gyfleoedd i siarad
Cymraeg.

Mae gan y dysgwyr le i gyfarfod, i gael paned
ac i wneud ffrindiau newydd. Enw'r lle yna yw
Babell y Dysgwyr! Syrpreis, syrpreis! Mae gan
Gymdeithas Edward Llwyd stondin yna hefyd
felly gwnewch yn siŵr o alw. Gwnewch nodyn yn
eich dyddiadur - wythnos cyntaf mis Awst!

Byddai'n braf eich gweld chi.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Parc Pen-bre

gan Rob Evans



Ar ddyddiau Sadwrn pan mae'r teithiau yn agos at Abertawe dw i'n treulio dipyn o fy amser ar goll. Dydw i ddim yn mynd ar goll wrth gwrs, dim ond mod i'n barod i fynd yn rhy gynnar. Doedd Parc Pen-bre ddim ond yn daith o hanner awr hamddenol. Enid a Dewi Jones oedd wedi trefnu'r daith ac o'r dechrau cychwyn roedden ni'n sylweddoli pa mor fanwl oedd y trefniant wedi bod. Roedden nhw wedi trefnu i'r dafarn leol agor ei drysau yn gynnar er mwyn i'n cyrrff fod yn gwbl gyfforddus cyn i ni ddechrau. Mi oedd un amod am y caredigrwydd yma - i ni alw i mewn am baned ar ddiwedd ein taith - digon teg!

Roedd yr eglwys yn agos iawn at y dafarn a chyfle i ni weld carreg bedd Ffrancwr a'i ferch Adeline. A beth sydd yn gwneud hynny'n ddiddorol? Roedd Adeline yn nith i Josephine, consort Napoleon ac roedd hi a'i thad ar long a wnaeth ddryllio ar draeth Cefn Sidan ar yr 25ain o Dachwedd 1828.

Troi wedyn a mynd ar Heol y Lloetrach, dros bont y rheilffordd, dros y cwrs golff, yn ofalus, i gyrraedd un o lwybrau'r parc a chyn hir roedden ni'n syllu fyny ar feic mawr gwyrdd. Na, doedd o ddim yn fawr - roedd o'n enfawr! Ond nid mor enfawr i rwystro YES Cymru i blannu un o'u sticeri nhw ar y crosbar!

Roedd dipyn o ddringo wedyn ac wrth fynd yn uwch roedd mwy o'r parc yn dod i'r golwg. Doeddwn i erioed wedi sylweddoli pa mor

enfawr oedd y parc. Lle braf iawn i grwydro ar y beic! O ran byd natur roedd llawer i'w weld a chlywed. Roedd ehedydd yn canu'n frwdfrydig uwch ein pennau a thegeiriau a llawer o flodau bychain yn tyfu wrth ein traed. Aeth Enid â ni at ardal ble mae gwaith yn cael ei wneud i gael y twyni tywod i symud unwaith eto. Ar ôl yr holl waith i gael tyfiant ar y twyni i'w sefydlogi mae pobl wedi sylweddoli nad yw hyn yn beth da i gynefin bywyd gwyllt.



Dros y twyni i gyrraedd traeth mawr Gefn Sidan ble roedd llawer o longau wedi cael eu dryllio cyn dyddiau'r goleudai a'r teclynnau diogelwch sydd ar gael i ni'r dyddiau yma. Bron nad oeddem yn gweld y môr a doedd dim llawer o bobl ar y traeth chwaith.

Ar ddechrau'r stori yma roeddwn i'n sôn am ba mor drefnus oedd Enid a Dewi wedi bod, wel dyma nhw wedi trefnu i ni gael ein picnic yn eistedd yn gyfforddus wrth fyrddau i fwyta, a thoiledau wrth law hefyd. Nid wy'n gofyn bywyd moethus wrth gwrs ond mae wir yn braf iawn i'w gael.



Roedd y prynhawn yn wahanol iawn i'r bore wrth i ni weld llynnoedd ag ynysoedd mawr o lilïau'r dŵr a cherdded trwy goed

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cysgodol. Gwelsom ni arth - do wir! Ond nad oedd o'n beryglus. Roedd maes carafanau enfawr wedi cael ei guddio o'r golwg ond, er hynny roedd y parc yn dawel, ac yn daclus hefyd, dydw i ddim yn cofio gweld sbwriel. Ond doedd yr ardal yma ddim yn dawel yn y gorffennol. Dyma le oedd ffatri'r Royal Ordnans o amser yr Ail Ryfel Byd. Gweithfeydd ffrwydron a oedd ar yr un ochr yn achosi niwed parhaol neu farwolaeth i'r gelyn ar un ochr ac ar yr ochr arall salwch a niwed iddyn nhw oedd yn eu cynhyrchu.



A dyma ni yn croesi'r cwrs golff unwaith eto ac yn loetran yn Heol y Lloetrach cyn cyrraedd y car i newid ein 'sgidiau ac anelu at y dafarn i gadw ein haddewid ond roedden ni'n rhy hwyr a'r dafarn ar fin cau. Rhaid trio'r Ashburnham wedyn ond roedd dathliad priodas yna a dim lle i ni. Y Ship Aground amdani felly, diod oer a sgysiau braf i ddod a diwrnod mor ddiddorol i ben.

Mawr ddiolch i Enid a Dewi am ddiwrnod hynod o bleserus ac am gyflwyno fi i barc llawer mwy o faint nag oeddwn i'n sylweddoli.

Atgofion o Gwm Llynfi

Rhan 1

gan Celia Jones

Rwy'n teimlo fod gennym i gyd ddyletswydd i roi lawr ar gof a chadw cofnod o'n ychydig flynyddoedd ar y ddaear ar gyfer y genhedlaeth nesa.

Yn ddiweddar rwy' wedi bod yn meddwl llawer am ardal fy mhleentyndod yn Llangynwyd ("Tir Iarll" y canol oesoedd) a'r ffordd y trawsnewidiodd y dirwedd a'r ffordd o fyw yn y Cwm.

Yn ugeiniau'r 19eg ganrif, roedd gweithfeydd haearn yn y Cwm ond roedd yn ardal wledig. Wedi 1840 mewnfudodd miloedd i weithio yn y pyllau glo.

Gydag agor llawer o byllau i gloddio glo o'r safon uchaf yn ystod ail hanner y 19eg ganrif,

newidiodd y pentrefi bach gwledig yn sylweddol gyda chodi llawer iawn o strydoedd tai teras, siopau, tafarndai, ysbytai ac ysgolion. Daeth y miloedd hyn gan fwyaf o Orllewin Cymru, o Gernyw ac o Iwerddon. Dechreuodd y mewnfudiad bwyso ar y gymdeithas a'r diwylliant Cymreig. Roedd yr iaith Saesneg yn dechrau disodli'r Gymraeg a'r Cymry Cymraeg eu hiaith yn troi'n lleiafrifol.

Bu addysg elfennol (cynradd) yn orfodol yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ers cyflwyno'r Ddeddf Addysg yn 1870. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn fynychu'r ysgol hyd at 10 mlwydd oed. Ond doedd gan y mwyafrif o rieni dosbarth gweithiol mo'r arian i dalu am addysg bellach i'w plant i gyd. Ar ddiwrnod ei benblwydd yn 12 oed yn 1894, dechreuodd fy nhad weithio fel prentis i'r gof uwch y Pwll Glo - bu'r ddau yn ffrindiau am oes.

Roedd fy nhad a nifer o fechgyn eraill y pentre' yn ffodus iawn fod prifathro Ysgol y Cymmer, Mr Lewis Davies a'r meddygon lleol wedi eu cymryd dan eu hadain i roi iddynt addysg ychwanegol gyda'r nos. Byddai hyn yn rhoi gwell sylfaen ac ehangu gorwelion y bechgyn tu hwnt i fywyd caled y pwll glo. O ganlyniad, roedd fy nhad drwy'i oes yn hoffi darllen ac yn ymddiddori mewn hanes a daearyddiaeth.

Yn 1889 pasiwyd y Welsh Intermediate Education Act - trobwynt mawr. Diben y ddeddf hon oedd sefydlu ysgolion uwchradd newydd wedi eu hariannu gan y llywodraeth.

Roedd fy modryb, chwaer henaf fy mam, yn dal i gofio'r "Welsh Not" ar droad y ganrif. Trwy gydol eu hoes, siaradai fy modryb a'i chwiorydd yn Saesneg gyda'i gilydd. Erbyn fy mhleentyndod innau, roeddem i fod i gael gwersi Cymraeg yn yr ysgol fach. Ond mewn gwirionedd dim ond ar brynhawn Gwener y cawsom unrhyw fath o wers Gymraeg. Daw "Cân yr Ysgol" gan Dafydd Iwan i'r cof -

Ac ambell i lesyn yn Welsh,

chwarae teg,

Am mai Cymro bach oeddwn i.

Roedd y Cwm yn enwog am ei ddiwylliant - cyngherddau mawr gyda sêr enwog,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cymdeithasau gwleidyddol, corau ac Eisteddfodau.

Mi fydd rhan 2 o'r erthygl yn rhifyn mis Awst. Diolch yn fawr i Celia am erthygl werthfawr dros ben.

Tony Lansdown

25.11.1928 – 4.4.2022



Roeddwn i wedi cyfarfod Tony cyn i ni gael ein taro gan Cofid ond dim ond dwywaith. Yn ystod yr haf llynedd pan oedd grŵp dysgwyr Southgate yn cyfarfod tu allan i Gaffi'r Tri Chlogwyn des i adnabod Tony yn well. Roedd o efo ni bron pob wythnos, dyn annibynnol dros ben a dyn deallus, roedd hynny'n amlwg. Beth nad oedden ni'n sylweddoli oedd pa mor ddeallus oedd o. Mi wnaeth hynny ddod yn glir i ni wrth wrando ar ei fab Richard yn adrodd ei deyrnged i'w Dad. Yn amlwg, ar ben popeth, roedd o'n ddyn diymhongar.

Tony oedd yr aelod gyntaf o'i deulu i fynd i'r Brifysgol, aeth o ymlaen i gael gradd dosbarth gyntaf yng Nghaergrawnt. Yn ystod ei yrfa datblygodd i fod yn arbenigwr fyd enwog ym myd peirianwaith cemegol. Roedd o'n Gyfarwyddwr y Sefydliad Triboleg ym Mhrifysgol Abertawe ac ysgrifennodd o leiaf pedwar llyfr ar y pwnc a chyfrannodd at lawer mwy.

Ar wahân i'w waith roedd ganddo lawer o ddiddordebau, yn gyntaf oll roedd ei angerdd am hedfan, roedd ganddo drwydded beilot ac am lawer o flynyddoedd yn hyfforddi cadetiaid yr RAF. Pan oedd e'n byw yng Nghanada yn y pum degau, cafodd e'r cyfle i hedfan â Llu Awyr Canada. Prynnodd awyren fechan er mwyn iddo fo a'i wraig fynd i'r sioeau awyr ac unwaith aeth a'r teulu ar wyliau i Jersey yn yr awyren.

Roedd yn wylwr adar brwd ac roedd yn gallu eu modrwyo. Wrth wneud hyn roedd yn gallu

dangos bod y grŵp bach o deulu Titw Tomos Las mewn gwirionedd yn cynnwys mwy na 300 o adar! Roedd ei ddiddordeb ym myd natur yn cymryd llawer o'i amser a'r teulu yn treulio llawer o ddyddiau Sul yn helpu partïon gwaith ar gyfer Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Morgannwg. Roedd o'n gadeirydd rhwng 1993 a 1997. Ei fab Huw yw'r cadeirydd presennol.

Ond mae amser yn cyrraedd pan mae eich diddordebau egnïol yn ormod i chi a dyna pryd wnaeth o ailgydio yn yr iaith Gymraeg. Roedd sut a ble wnaeth o ddysgu Cymraeg yn ddirgelwch i ni felly holais ei fab. Yr ateb ces i oedd nad oedd Tad Tony yn siarad Cymraeg ond roedd ei Fam yn rhugl felly mi oedd Cymraeg yn y teulu. Pan aeth i Brifysgol Caerdydd yn 1946 ymunodd â'r Gymdeithas Gymraeg. Cyn hynny roedd yn meddwl bod o'n deall yr iaith yn iawn ond doedd o ddim yn gallu deall sgysiau. Er hynny roedd yn gallu darllen ychydig felly prynodd llyfrau ac astudiodd yn galed ac yn y pen draw cyrhaeddodd rhugled. Wel wrth gwrs – dyna'r fath o ddyn oedd o. Roedd o'n help mawr i aelodau eraill ein grŵp Gymraeg. Dw i ddal yn ei glywed yn dweud, wrth i rywun gael trafferth i geisio cyfieithu rhyw frawddeg gymhleth Saesneg i mewn i Gymraeg: "Cofiwch, mae wastad mwy nag un ffordd o ddweud yr un peth". Cyngor defnyddiol iawn.

Mae o'n golled fawr i'r grŵp Gymraeg ond ei annwyl wraig a'i deulu sydd yn ei golli'r fwyaf.

Roedd yn fraint i'w adnabod.

Heddwch i'w lwch.

Y Gwiwerod Coch ar Ynys Môn

gan Lillian Harrison

Lle hyfryd yw Ynys Môn, gyda llawer o draethau gwag, ble mae'r dŵr yn lân, ac yn las; llawer o leoedd i fynd am dro ar lan y môr, neu yn y wlad; a llawer o bentrefi bach, ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg.

Pan oedden ni yno, fe ddysgais i lawer am brosiectau gwiwer goch ar yr ynys. Mae Ynys Môn wedi dod yn warchodfa gref i wiwerod coch dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'r ynys yn berffaith iddyn nhw oherwydd mae'n cael ei gwahanu o weddill Cymru gan yr Afon Menai.

10 Does dim gwiwerod llwyd ar yr ynys nawr, felly

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com


mae gwiwerod coch yn gallu parhau heb gystadleuaeth am eu bwyd neu am eu cynefin.

Yn agos i'r lle ble roedden ni'n aros, (Henllys ger Biwmares), mae 'na goedwig ddiddorol iawn. Ar y rhestr coetiroedd hynafol Cymru, mae coedwig Henllys yn ymddangos fel coetir hynafol a lled-naturiol.

Roedd traciau graean yn rhedeg trwy'r coed. Lle hyfryd i fynd am dro ble rydych chi'n cael eich amgylchynu gan flodau'r gwanwyn, yn cynnwys clychau'r gog, briallu, blodau'r gwynt, llygad Ebrill, a garleg gwyllt hefyd. Roedd 'na lawer o gelyn a rhuddwernen yn y goedwig. Mae'r rhain i gyd yn rhywogaethau dangosol o goetir hynafol.

Does dim llwybrau cyhoeddus o gwmpas y goedwig, dim ond llwybrau i'r bobl sy'n aros yn Henllys neu yn gweithio yno. Felly fel arfer mae'n dawel iawn yno. Fe glywsom ni lawer o ganu adar a sŵn curo cnocell y coed yn y pellter.

Yn 2006 rhyddhawyd chwe gwiwer goch yn y goedwig; tri o Gaint a thri o Norfolk. Eglurodd yr hysbysfwrdd eu bod yn byw am tua chwe blynedd. Felly fe feddylion ni, na fyddai unrhyw gyfle i weld y gwiwerod coch, os na fyddan nhw wedi cael babanod (cathod bach) i barhau'r rhywogaeth. Ond, roedden ni'n lwcus iawn - ddwywaith.



Ar yr ail ddiwrnod, am tua ugain munud bob tro, arhoson ni'n dawel yn gwylio'r anifeiliaid bychain ciwt a doniol, yn symud o goeden i goeden. Ond anifeiliaid bach swil iawn ydyn nhw, os oes sŵn bobl yn cerdded heibio, neu dractor yn torri'r glaswellt yn y pellter, fe fyddan nhw'n rhedeg yn gyflym ac yn cuddio rhywle yn y goedwig.

Yn y goedwig roedd le i chi eistedd i wyllo'r gwiwerod coch yn nôl bwyd o orsaf fwydo (ar 11

goeden fawr ochr draw i ddyffryn bychan). Roedd yn ddigon agos i'w gweld nhw heb ysbieiddrych. Roedd yn ddifri i wyllo nhw yn codi caead y bocs bwyd i nôl hadau blodau'r haul. Unwaith neidiodd un wiwer i mewn i'r bocs, yn edrych am fwyd! Ar ôl sawl funud fe neidiodd y wiwer mas o'r bocs a rhedodd i ffwrdd.

Roedd yn brofiad gwych - rhywbeth i gofio am byth!

Gobeithio, fe fyddan nhw'n mynd o nerth i nerth yno ac yn y prosiectau gwiwerod coch eraill ar Ynys Môn.


Diolch i Keith Belcher am y llun o'r wiwer yn Henllys.

Mae Lillian yn gweithio fel ymgynghorydd cynllunio ac yn byw yng Nghernyw. Mae hi'n dysgu Cymraeg gyda Choleg Gwent (dosbarth Uwch 2:2).

The Armed Man

Offeren dros Heddwch

Adolygiad gan Richard Cleaves



Diolch o'r galon i'r Mid Glamorgan Savoyards am gyngerdd mor fendigedig! Fel arfer maen nhw'n canu opera ysgafn. Dywedodd Roger Hudd, yr arweinydd eu bod nhw wedi dewis rhywbeth 'outside their normal genre'. Cyngerdd ar gyfer Wcráin oedd hi. Roedden nhw wedi croesawu ffrindiau o gorau eraill a phobl o gerddorfeydd Caerdydd, Abertawe a'r Rhondda. Roedden nhw wedi paratoi The Armed Man gan Karl Jenkins ar frys. Roedd y noson yn fwy na chyngerdd.

Roedd 'na awyrgylch arbennig yn Eglwys Holl Saint Porthcawl, roedd yr haul bron wedi mynd i lawr. Roedden ni'n dechrau efo'r arswyd rhyfel a'r alwad i weddio ond wedyn roedd y rhyfel yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ddychrynlyd a chyn bo hir roedd popeth yn mynd o ddrwg i waeth. Trwy'r amser roedden ni'n meddwl am bopeth sy'n digwydd yn Wcráin. Tu mewn i'r eglwys, wrth ein hochr roedd gerflun o'r Forwyn Fair ac Iesu. Pan oedd yr haul ar fachlud roedd y golau ar y cerflun ac roedden ni'n clywed y côr yn canu 'Agnus Dei'. Dacw Oen Duw, yr un sy'n cael gwared â phechodau'r byd, yn rhoi heddwch i ni.

Mae'r Armed Man yn defnyddio barddoniaeth trwy'r oesoedd, darnau o ysgrythurau Iddewig, Cristion, Mwslimaidd, Hindŵaidd, o'r byd i gyd. Mae Guy Wilson a Karl Jenkins yn gorffen efo gobaith: ar ôl y rhyfel, tangnefedd: yn well byth, heddwch: fydd dim marwolaeth o hyn ymlaen, dim galaru, dim wylo, dim poen.

Erbyn y diwedd roedd yr haul wedi cyrraedd y darllenfa, a baner Wcráin. Mae 'na obaith yn wir. Roedd y côr yn gorffen efo anthem Wcráin a thu ôl i ni roedd rhywun yn y gynulleidfa yn canu'r geiriau. Mae mor bwysig i gadw gobaith - ond ar hyn o bryd mor anodd hefyd.

Diolch i'r Mid Glamorgan Savoyards nid yn unig am gyngerdd mor fendigedig ond hefyd am roi gobaith i bawb.

Taith Lein Calon Cymru

gan Sylvia Harries

Y Trydydd Gam - Rhydaman i Landeilo

Wel, trodd Llandeilo i Rydaman yn daith o Rydaman i Landeilo oherwydd nad oedd bws wedi troi lan. Mae'n well cymryd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyntaf os mae'n bosib rhag ofn y bydd oedi annisgwyl ac yn enwedig ar daith linellol fel hyn gyda dim ond ychydig o fysiau yn rhedeg. Felly aethom ati i ddarllen y cyfeiriadau roeddwn ni wedi paratoi o ddiwedd y daith yn ôl at y cychwyn.

Roedden ni allan o'r dref yn fuan ac yn dringo'r brynau. Roedd y tywydd yn braf iawn a thwym, roedd hi wir yn ddiwrnod braf iawn o wanwyn. Arhoson ni yn am eiliad i daenu eli haul, gwisgo hetiau a sbectol haul hefyd a thynnu haenen neu ddwy o ddillad. I fyny tuag at Landybie ac ymlaen at Gelliwastad. Trwy'r pentref, ac o'm blaen yn sydyn ac ar ben y bryn, roedd tŷ mawr iawn yn edrych yn hollol allan o'i

le, fel rhywbeth yn syth allan o'r gyfres Dallas neu Dynasty. Ar y ffordd stopion ni am goffi a byrbryd, i ddweud y gwir, roedd hi wedi bod yn ddringfa hir. Yma cwrddon ni â'n hunig gerddwyr eraill sef tri dyn ifanc, oedd yn cerdded y llwybr cyfan a gwersylla ar hyd y ffordd.



Stop coffi drosodd ac i ffwrdd â ni eto. Mae'r llwybr fan hon yn achosi rhai problemau. Nid oedd ein map yn cyfateb i'r mynegbyst. Mae'n edrych fel pe tai perchnogion ddau dŷ wedi cael symud y llwybrau troed i ffwrdd o'u gerddi, mae'n debyg ei fod yn ddrud iawn i wneud hyn. Buon ni'n dringo eto, ar draws caeau gyda ffermydd anghysbell ac i mewn i'r coed. Yr amser hwn o'r flwyddyn, roedd llawr y coetir wedi'i gorchuddio â blodau gwyllt, y sêr, fioledau, briallu a blodau'r gwynt. Unwaith aethon ni drwy'r coed, aethon ni ymlaen i bentref Llandyfân gyda 'i eglwys hynod ddiddorol. Doedd hi ddim yn hen eglwys, cafodd ei adeiladu yn 1864, ond roedd eglwys Gatholig ar y safle cyn hynny a byddai Pererinion yn dod i ymdrochi yn y "ffynhonnau sanctaidd". Gelwir nhw yn Ffynnon Gwyddfaen a Ffynnon Sant Teilo, Bu Sant Teilo farw yn Llandeilo yn y chweched ganrif, ond pwy oedd Dyfan sgwn i? Mae llawer o hanes hysbys i'r lle hwn ond bu'n rhaid i ni symud ymlaen oherwydd ein bod wedi oedi yn hirach na'n hamser. Ymlaen felly!


Mae'r dringo'n fwy serth nawr, trwy hen fferm, roedd yn edrych fel cartref gwylia nawr a' doedd y perchennog ddim yn rhy hapus i'n gweld. Gwnaethon ni wirio'n ofalus ein bod ni ar y llwybr troed cywir, ac i fyny â ni i'r Garreg Ddwfn. Ar y brig rydych chi'n edrych allan dros y Carmarthen Fans neu'r Picws Du, yn edrych yn euraidd dan garped o redyn. Wrth edrych o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

gwmpas gallwn weld tir amaethyddol ffrwython ddyffryn Llŵchwr. Mae Llygad Llŵchwr (tarddiad yr afon Llŵchwr) yma hefyd lawr yr ochr arall. Roedd yn amser cinio nawr a dyma ni yn edrych am dipyn o gysgod, ac yn sydyn, rownd y gornel roedd gwaith potelu 'Brecon Carreg' ac yma roedd bwrdd picnic - moethusrwydd pur. I lawr nawr a tuag at Gastell Carreg Cennen, ond nid cyn i ni gael ein cludo i Batagonia - fferm Alpacas - anifeiliaid chwifrydig iawn. Gwastraffon ni lawer of amser yn joio yma, hefyd.



Gallwn ni weld y castell yn y pellter, oddi yma mae'r olygfa yn odidog. Roedden ni'n edrych yn syth i fyny wyneb y graig at y castell a hwnnw yn eistedd fel pinacl. Wrth i ni fynd dros y cae tuag at y castell yn sydyn welsom ni'r cwmp serth i lawr at yr afon, dyna pryd wnaethon ni faddau i yrrwr y bws coll. Roedd mynd i lawr yn anodd ond byddai dringo wedi bod yn waeth byth.



Roedd yr ardal hon mor hardd ond roedd fy meddwl i ar amserau'r trê. Roedd hi'n gynnes iawn doedd dim un ohonon ni eisiau gadael y lle hudol hwn. O na! Roedd o leiaf dwy filltir gyda ni i fynd a llai nag awr i'w gerdded. Roedd trê am 4 o'r gloch a'r trê nesa am 9 o'r gloch! Gwnes i weiddi, ac yn sydyn roeddwn i ar fy nghefn!

Doedd dim modd i ni gyrraedd gorsaf Llandeilo mewn pryd felly ond roedd cynllun crefftus gyda fi er gwaethaf yr halibalw - troeon ni i'r chwith i orsaf Ffairfach. Cyrhaeddon ni gyda 10 munud i sbario. Whiw!!

Mae'r grŵp yn cwyno nawr eu bod wedi colli milltir a hanner oddi ar eu taith. Wel does dim plesio rhai pobl, nag oes?

Tan y tro nesaf, hwy!

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagoro esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Y manylion pwysig

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Sadwrn 12 c.d. - 11.30 y.h.

Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

O Lundain i Rymni

gan Christine Denwood

Des i o hyd i Gymdeithas Edward Llwyd blynyddoedd yn ôl yn yr Eisteddfod. Roedd athro'r dosbarth Cymraeg yn Llundain wedi tynnu sylw at y Gymdeithas hefyd, gan roi taflen i ni. Gwelais hysbysiad am y daith yn ardal Rhymni yn y Wennol. Gan fy mod i'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn Llundain ac wrth fy modd yn siarad Cymraeg, beth oedd yn gallu bod yn well?

Des i i Gymru ar y trêrn ac aros mewn gwesty ym Mhontlotyn cyn ymuno â'r grŵp ar y bore Sadwrn. O'n i eisiau gweld tirwedd y cymoedd, anadlu'r aer glân a chael golygfeydd eang o'r copaon o gwmpas. Dyna oedd atyniad Rhymni i mi. Ces i groeso cynnes gan bawb yn y Gymdeithas. Nes i fwynhau sgwrsio, bron dim gair o Saesneg trwy'r dydd. Clywais am y tro gyntaf hefyd y stori o Idris Davies, bardd enwog cafodd ei eni a threuliodd ei oes yn y dre.



Pabi Gymreig yn tyfu ar ochr y stryd yn Rymni

Taswn i wedi gweld yr ardal o gwmpas Rhymni ar ddechrau'r 20fed ganrif, faswn i wedi gweld tirwedd ddiwydiannol, llawn tomennydd glo gyda'r mwg ac arogl tanau yn yr aer. Ond, ar y daith, clywais yr ehedydd a gwelais y wennol.

Wrth droi yn ôl tuag at Rhymni, daethon ni o hyd i bentre Drenwydd ar Gwaun y Mynach. Pentre ar gyfer gweithwyr yn y diwydiant lleol oedd yn wreiddiol. Mae'r rhesi o dai cadarn yn edrych yn rhyfedd yn y tirwedd yma.

Rhan fwyaf o amser cerddon ni trwy gefn gwlad hardd a gwyrdd - bron 9 milltir. Wrth gyrraedd yn ôl at orsaf Rhymni, roedd amser i mi adael y grŵp. Hoffwn i dod yn ôl yn y dyfodol. Roedd yr holl profiad yn fendigedig. Diolch i

bawb sy wedi cyfrannu i'r diwrnod. Ro'n i'n lwcus hefyd i dderbyn gwasanaeth da gan Trafnidiaeth Cymru i dechrau'r daith yn ol i Lundain.

Roedd yn bleser i groesawu Christine ar ein taith yn ardal Rymni. Dyn ni'n edrych ymlaen at ei gweld hi eto.

Priorddy Ewenni

ymweliad Cymdeithas Hanes Bro Ogwr
adroddiad gan Richard Cleaves

Doeddwn i ddim wedi gweld priorddy fel Priorddy Ewenni o'r blaen! Y peth cyntaf a welsom oedd y waliau enfawr. Mwy fel hen gastell nag eglwys. Pam, tybed? Dyma'r cwestiwn cyntaf gofynnodd pennaeth y priorddy wrth grŵp ohonom ni o Gymdeithas Hanes Bro Ogwr un noswaith heulog a thwym Mis Mehefin.

Dyma oedd ein hail gyfarfod ers y cyfnod clo, ymweliad a Phriorddy Ewenni yn y cefn gwlad rhwng Pen-y-bont ar Ogwr ac Aberogwr. Roedd Bill a Jayne Jones, a Kay Rudall yn croesawu ni ac yn arwain yr ymweliad. Er mwyn dathlu naw ganmlwyddiant y Priorddy yn 2015 daeth criw o wirfoddolwyr at ei gilydd i baratoi sioeau i'r ysgolion lleol. Roedden nhw'n wych ond doedd neb yn gallu gwneud y sioe yn Gymraeg. Ond mi wnaeth Bill (y Prior), Jayne a Kay ddod at ei gilydd er mwyn darparu sioe Cymraeg. Syniad gwych: ac erbyn hyn maen nhw'n cynnig ymweliadau dwyieithog ac ymweliadau yn y Gymraeg i'r ysgolion Cymraeg. Am un noson, felly, roedden ni'n bobl ifainc unwaith eto. Ac roedd hynny'n hyfryd!



Yn yr eglwys fawr wnaeth Bill ateb ei gwestiwn cyntaf - pam y waliau mawr cadarn? Adeiladwyd y priorddy gan Maurice de Londres, mab William de Londres a oedd wedi adeiladu castell Aberogwr, un o'r pum castell yn ardal Pen-y-bont. Normanaidd oedden nhw, wrth gwrs, ac wedi ennill y tir o'r Cymry. Penderfynodd

14 Maurice adeiladu'r Priorddy yn 1115 ond roedd y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Priordy yn sefyll ar hen safle eglwys fach Geltaidd a sefydlwyd gan Illtud Sant. Dyna pam mae'r waliau mor gadarn - i'w amddiffyn rhag y Cymry. Roedd yr eglwys yn fawr iawn a dan awdurdod mynachdy Sant Pedr, Caerloyw, efo 12 mynach. Yng nghanol yr Eglwys mae twr enfawr efo stafell digon mawr ar ben y twr. Roedd y milwyr yn aros yn y stafell i amddiffyn y priordy rhag y Cymry.

Mae'r priordy'n unigryw yng Nghymru ac yn bosibl ym Mhrydain hefyd: Mynachlog amddiffynnol. Benedictiaid oedd y mynachod, yn cadw at reolau Sant Benedict: dim siarad, ufuddhau'r prior, mynd i'r eglwys i weddio wyth gwaith bob dydd, gweithio'n galed, bod yn garedig, gofalu am bobl druan, bod yn ddiolchgar ym mhopeth maen nhw'n gwneud. Syniadau da. Roedd gan Jayne a Kay lawer o berlysiâu i ddangos i ni: perlysiâu blasus, peraroglus ac iachus. Cawsom gyfle i rwbio nhw yn ein dwylo er mwyn profi eu gwynt: saets, persli, rhosmari, teim. Roedd y rhain yn bwysig iawn yn eu dydd.

Roedd Henry VIII wedi atodi talaith Cymru at wlad Lloegr ond hefyd roedd wedi diddymu'r mynachlogydd. Diflannodd llawer rhan o'r priordy, ond roedd yr Eglwys a'r waliau mawr o'i gwmpas yn parhau. A thu ôl y waliau, plasty mawr arglwydd y faenor. Diolch yn fawr iawn i Bill, Jayne a Kay am noson mor ddiddorol. Syniad gwych i ddenu plant ysgolion Gymraeg!

Mae gennyn ni ymweliad â'r Amgueddfa Porthcawl, bore Sadwrn, 9 Gorffennaf: mwy o fanylion

www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr

Niwsans

Roeddwn i'n brysur yn gweithio ar yr eirfa, y peth olaf i wneud i orffen rhifyn mis Gorffennaf pan ganodd y ffôn. Ei godi, – tawelwch, ac ar ôl ychydig o eiliadau rhywun yn dweud "Hello, is that Mr Evans?" "who are you/" medda fi. Fo yn dweud "Are you Mr Evans?" finnau'n dweud "Are you from Microsoft?"

Doedd o ddim eisiau cyfaddef hynny a dywedodd "No, I'm from the call blocking service." "Well, it's not working!" medda fi a rhoi'r ffôn i lawr!

Llythyr o Tasmania

gan Robin Roberts



Ar ôl haf braf a hydref mae'r gaeaf wedi cyrraedd yn gynnar yn Tasmania gyda thywydd gwyllt mewn rhai mannau ac eira ar ben Mynydd Wellington/Kunanyi, Hobart.

Fodd bynnag, mae'r Tasmaniaid yn ddyfeisgar iawn gyda llawer i'w gynnig yn ystod y misoedd oer a thywyll.

Am bythefnos mae gennym yr ŵyl 'Dark Mofo' gyda llawer o'i digwyddiadau'n cael eu cynnal gyda'r nos. Mae'n dathlu tywyllwch heuldro'r de ac yn cynnwys llawer o actau cerddorol, gosodiadau golau ar raddfa fawr a gwledd gaeaf.

Ym mis Gorffennaf mae Hobart yn cynnal 'Festival of Voices'. Pythefnos o ddigwyddiadau cerddorol yn arddangos cerddoriaeth gorawll gyfoes a chabaret gan gynnwys cyfleoedd addysgol yn croesawu cyfraniadau neu ddigwyddiadau cynulleidfa i fywiogi'r gaeaf tywyll.

Does ond angen i ni wisgo dillad priodol i fynd allan i fwynhau misoedd oeraf Tasmania.


Hanes Y Gymraeg

Y Ugeinfed Ganrif - Rhan 2

gan Martin Jones

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd roedd cyflwr yr iaith yn ansefydlog iawn. Erbyn 1951, roedd y nifer o siaradwyr wedi disgyn i 715,000 a'r canran i 28.9%, a pharhaodd y sefyllfa i waethygu - yn ôl cyfrifiad 1971, doedd dim ond 542,000 o siaradwyr, sef 20.9% y cant o'r boblogaeth. Does dim rhyfedd felly bod morâl y siaradwyr yn isel iawn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Ond serch hynny, yn ystod y degawdau hyn, heuwyd hadau adfywiad wrth i bobl ddechrau defnyddio anufudd-dod sifil fel modd i sefyll lan dros eu hawliau fel siaradwyr Gymraeg. Er enghraifft, rhwng 1952 ac 1960, ymddangosodd Eileen a Trefor Beasley o flaen y llysoedd un ar bymtheg o weithiau. Aethpwyd â'u heiddo o'u cartref gan y beiliaid ar chwe achlysur achos iddyn nhw wrthod talu eu trethi i Gyngor Dosbarth Gwledig Llanelli nes i'r cyngor ddarparu biliau yn Gymraeg.

Helpodd safiad y Beasleys ysbrydoli darlith radio Saunders Lewis "Tynged yr Iaith" yn Chwefror 1962. Meddai: "Nid llai na chwyldroad yw adfer yr iaith Gymraeg. Trwy ddulliau chwyldro yn unig y mae llwyddo." Ychwanegodd bod angen "penderfyniad, ewyllys, aberth, ymdrech" er mwyn achub y Gymraeg fel iaith fyw. Yn ei dro, ysbrydolodd y ddarlith grŵp o bobl ifanc i sefydlu Cymdeithas yr Iaith ym mis Awst 1962, a byth ers hynny mae'r Gymdeithas wedi bod ar flaen y gad yn arwain y chwyldro hwnnw.

Er mwyn tynnu sylw at eu hymgyrchoedd, mae aelodau'r Gymdeithas wedi bod yn barod i gael eu harestio a'u carcharu. Dros y blynyddoedd carcharwyd cannoedd o gefnogwyr y Gymdeithas am dorri'r gyfraith o ganlyniad i'w gweithredoedd uniongyrchol di-drais. Ei gwrthdystiad enwocaf efallai oedd ei wrthdystiad torfol cyntaf, pan yn Chwefror 1963 ataliwyd y traffig ar Bont Trefechan, Aberystwyth gan fyfyrwyr o golegau

Aberystwyth a Bangor yn bennaf. Er taw, yn ei hanfon, mudiad bobl ifanc ydy'r Gymdeithas, mae wedi gallu dibynnu ar ewyllys da a chefnogaeth ddistaw'r to hŷn.

Mae'r Gymdeithas wedi chwarae rhan hollbwysig mewn cadw'r iaith yn fyw, ac mae ei gweithredoedd wedi cyfrannu'n sylweddol i'r datblygiadau positif o ran iaith yn y chwe deg o flynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys: ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog; arwyddion ffyrdd dwyieithog; sianel teledu Cymraeg; Deddf Iaith 1993 a roddai ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnig gwasanaeth Cymraeg cyfyngedig; a statws swyddogol i'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg, 2011.

Rydyn ni wedi gweld mewn erthyglau blaenorol y pwyslais ar Saesneg yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Mae'r chwe deg o flynyddoedd diwethaf wedi gweld datblygiadau positif yn y maes hwn hefyd. Yn 1971, sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin (nawr wedi'i alw Mudiad Meithrin) sy wedi darparu grwpiau chwarae a meithrinfeydd ledled Cymru. Yn 2019/19, roedd bron tri ar ddeg mil o blant yn mynychu'r grwpiau hyn. Ac mae'r cynnydd yn y nifer o grwpiau wedi creu galw cryf gan rieni am ysgolion cynradd Gymraeg. Nid ydy'n syndod, felly, bod y nifer o blant mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 18.8 y cant o ddisgyblion yn 2000/01 i 24 y cant o ddisgyblion (sef dros 65,000 o blant) yn 2020/21.

Mae'r sefyllfa mewn addysg uwchradd yn debyg. Dros yr un cyfnod, mae nifer o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 18.1 y cant o ddisgyblion yn 2000/01 i 22.8 y cant (sef bron 45,000) yn 2020/21.

Ac mae llawer o gyrsiau ledled Cymru ar gyfer oedolion sy eisiau dysgu'r iaith, gan gynnwys y Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Yn ôl gwefan y Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn 2018/19 roedd mwy na 13,000 o oedolion yn mynychu cyrsiau. Yn 1985, enillodd dysgwr (Robat Powel) y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn 2013 penododd dysgwr arall (Christine Jones) yn archdderwydd. Ond er gwaethaf y llwyddiannau hyn, mae'r problem o sut gall dysgwyr ddod o hyd i'r bont i'r gymuned Gymraeg yn parhau i fod yn her.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Er gwaethaf y datblygiadau positif hyn, roedd ganlyniadau cyfrifiad 2011 yn siomedig. Roedd cyfrifiad 2001 wedi awgrymu bod yr iaith wedi troi cornel wrth i'r canran o'r boblogaidd oedd yn siarad Cymraeg wedi cynyddu (i 20.8 y cant) am y tro gyntaf ers dros ganrif. Ond, yn anffodus, disgynnodd y canran i 19 y cant yn 2011, er bod y nifer o siaradwyr (562,000) yn fwy nag yn 1971 (542,000). Ar hyn o bryd, rydyn ni'n dal ein hanadl wrth i ni aros am ganlyniad cyfrifiad 2021.

Efallai mai sut rydych chi'n gweld dyfodol yr iaith yn dibynnu ai optimist ynteu besimist ydych chi. Ac efallai cyhyd ag y bydd y Gymraeg (â'i nifer cymharol fach o siaradwyr) yn byw yng nghysgod yr iaith Saesneg (iaith ryngwladol, ac iaith gyntaf dros dair miliwn o bobl), bydd hi dan fygythiad. Ond ar y llaw arall, mae nifer o ffactorau cadarnhaol ar waith, gan gynnwys y ffaith bod gan Gymraeg statws swyddogol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae academyddion wedi gwasanaethau'r iaith yn dda trwy gynhyrchu geiriaduron modern a thrwy sicrhau bod yr iaith yn parhau i ddatblygu i adlewyrchu datblygiadau technegol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae gyda'r Gymraeg eiriau newydd fel tonfedd, caledwedd, a thaenlen, tra bod y pecyn meddalwedd (gair newydd arall!) Cysgliad yn cynnwys gwirydd sillafu a gramadeg (Cysill) a chasgliad o eiriaduron (Cysgeir).

Mae'n ymddangos i fi bod diwylliant Cymraeg mewn cyflwr iachus. Cyhoeddir cannoedd o lyfrau Cymraeg o bob math (i blant ac oedolion fel ei gilydd) bob blwyddyn, a dros 60 o bapurau bro fisol. Mae sianeli Cymraeg radio a theledu, ac ymhlith bobl ifanc mae byd cerddoriaeth Cymraeg yn ffynnu a hyd yn oed yn cyrraedd cynulleidfa y tu allan i Gymru. Ac mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn parhau i ffynnu.

Ond serch hyn i gyd, does dim amheuaeth nad ydy'r frwydr i achub yr iaith wedi'i hennill ac na allai pawb roi'r gorau i ymgychu.

Geirfa

Pentyrch

Didrafferth - without difficulty
Does dim rhyfedd - it's no wonder
Anawsterau dysgu - learning difficulties
Ymyrryd - to intrude
Dathliadau - celebrations
Grisiau - steps
Wrth reswm - obviously
Pencadlys - headquarters
Cyhyrau - muscles
Gyrion - outskirts
Am gyferbyniad! - what a contrast!
Amrywiaeth - variety

Rhy brysur o lawer

Yn breffu - bleating
Gwelliannau - improvements
Ansefydlog - fragile
Ceirw - deer
Llwynog - fox
Tybed - I wonder

Ffilmio yn Abergwaun

Gwisg genedlaethol - national dress
Ail-greu - recreate
Chwifio picfforch - waving a pickfork

Dysgu fy Mab

Rhydychen - Oxford
Cyfrifydd - accountant
Gweithgareddau - events
Her - challenge
Sbwng - sponge
Meithrin - nursery
Etifeddiaeth - heritage
Tegan - toy

Gardd Agored

Talacharn - Laugharne
Abergwaun - Fishguard
Amyneddgar - patient
Elusen - charity
Erw - acre

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Lluosflwydd - perennial
Peillio - to pollinate
Coetir brodorol - native woodland
Stribedi - strips
Dolydd - meadows

Gwleidyddiaeth a Garddio

Gwleidyddiaeth - politics
Yn y gwyllt - in the wild
Ysgrifenyddes - secretary
Swyddfa'r rheolwr - manager's office
Gwau - to knit
Gwnïo - to sew
Anobeithiol - hopeless

Parc Pen-bre

Ar yr amod - on condition
Caredigrwydd - kindness
Digon teg - fair enough
Nith - niece
Dryllio - to wreck
Ehedydd - skylark
Brwdfrydig - enthusiastically
Tegeirian - orchid
Twyni tywod - sand dunes
Cynefin - habitat
Goleudy - lighthouse
Tecnau diogelwch - safety equipment
Arth - bear
Gweithfa ffrwydrion - explosive factory
Niwed parhaol - permanent injury
Gelyn - enemy
Cynhyrchu - to produce

Atgofion Cwm Llynfi

Dyletswydd - duty
Trawsnewid - to transform
Tirwedd - landscape
Gweithfeydd haearn - ironworks
Disodli - to displace
Elfennol - basic
Yn orfodol - compulsory
Gof uwch - senior blacksmith
Dan ei adain - under his wing
Ychwanegol - additional

Sylfaen - foundation
Ehangu gorwelion - expand horizons
Diben - purpose
Wedi ei ariannu - financed

Tony

Taro - to strike
Annibynol - independent
Deallus - intelligent
Teyrnged - tribute
Diymhongar - modest
Gradd dosbarth cyntaf - first class degree
Caergrawnt - Cambridge
Byd enwog - world famous
Peirianwaith cemegol - chemical engineering
Cyfrannu - to contribute
Angerdd - passion
Trwydded - licence
Gwyliwr adar - birdwatcher
Modrwy - to ring
Partion gwaith - working parties
Diddordebau egnïol - energetic interests
Ailgydio - to take up again
Dirgelwch - mystery
Heddwch i'w lwch - rest in peace

Gwiwerod Coch

Gwiwer - squirrel
Gwarchodfa gref - stronghold
Cystadleuaeth - competition
Coetir hynafol - ancient woodland
Lled naturiol - semi natural
Graean - gravel
Amgylchynu - to surround
Clychau'r gog - bluebells
Briallu - primrose
Blodau'r gwynt - wood anemone
Llygad Ebrill - lesser
ndine
Garlleg gwyllt - wild garlic
Celyn - holly
Rhuddwerdden - wild cherry
Rhywogaethau dangosol - indicator species
Cnocell y coed - woodpecker
Rhyddhau - to release

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hysbysfwrdd - information board
Swil - shy
Gorsaf fwydo - feeding station
Ysbienddrych - telescope
Blodau haul - sunflower

The Armed Man

Cerddorfa - orchestra
Ar frys - in a hurry
Yn fwy na chyngherdd - more than a concert
Awyrgylch - atmosphere
Arswyd rhyfel - the horror of war
Gweddio - to pray
Dychrynlyd - frightful
O ddrwg i waeth - from bad to worse
Cerflyn - statue
Y Forwyn Fair - the Virgin Mary
Machlud - sunset
Pechodau'r byd - the sins of the world
Heddwch - peace
Barddoniaeth - poetry
Ysgrythur - scripture
Iddewig - Jewish
Marwolaeth - death
Galaru - to mourn
Gwylo - to cry
Darllenfa - lectern
Cunulleidfa - congregation

Lein Calon Cymru

Trafnidiaeth cyhoeddus - public transport
Annisgwyl - unexpected
Llinellol - linear
Cyfeiriadau - directions
Taenu - to spread
Haenen - layer
Byrbryd - snack
Dringfa - a climb
Gwersylla - to camp
Cyfateb - to correspond
Mynegbost - fingerpost
Anghysbell - remote
Gorchuddio - to cover
Pererin - pilgrim
Ymdrochi - to bathe
Euraidd - golden
Rhedyn - bracken
Amaethyddol - agricultural
Ffrwythlon - fruitful
Moethusrwydd pur - pure luxury
Godidog - excellent

Cwymp serth - a steep drop
O Lundain i Rymney
Ymddiriedolaeth - Trust
Bywyd gwyllt - wildlife
Tirwedd - landscape
Anadlu - to breathe
Aer glân - clean air
Golygfeydd eang - wide views
Diwydiannol - industrial
Tomen - a heap

Priordy Ewenni

Canmlwyddiant - centenary
Gwirfoddolwr - volunteer
Ymweliad - a visit
Sefydlu - to establish
Amddiffyn - to defend

Lythyr o Tasmania

Dyfeisgar - inventive
Ar raddfa fawr - on a large scale
Gwledd - feast
Addysgol - educational

Hanes y Gymraeg

Hau hadau - to sow seeds
Adfywiad - revival
Anufudd-dod sivil - civil unrest
Eiddo - possessions
Ysbrydoli - to inspire
Chwyldroad - revolution
Adfer - to restore
Ewyllys - will
Aberth - sacrifice
Ymdrech - endeavour
Ar flaen y gad - on the front line
Cyfyngiedig - restricted
Cyfundrefn - system
Dal ein hanadl - to hold our breath
Cyfrifiad - census
Dan fygythiad - under threat
Tonfedd - wavelength
Caledwedd - hardware
Taenlen - spreadsheet
Gwirydd sillafu - spell checker